

# CYNGOR GWYNEDD



## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>23 Mehefin 2022</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Craffu 2021-22</b>
<b>Aelod:</b>	<b>Y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Fforwm Craffu</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)</b>

### Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn yr adroddiad.

### CEFNDIR A RHESYMEG

1. Yn unol â'r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.
2. Mae'r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2021-22, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
  - Gweithdai Blynyddol Craffu
  - Fforwm Craffu
  - Eitemau Craffu
  - Galw i Mewn
  - Grwpiau Tasg
  - Tracio Effaith Craffu
  - Hyfforddiant
  - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2021/22
3. Gyda phwyslais cynyddol yn cael ei roi ar asesu effaith gwaith craffu, canolbwyntiwyd ar yr eitemau craffu lle ychwanegwyd gwerth drwy'r gwaith craffu. Mae rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad blynyddol.
4. Crëwyd fersiwn cryno o'r adroddiad gyda'r bwriad iddo gyflwyno gwaith craffu 2021-22, mewn modd hawdd i'w ddarllen a chryno.

### ATODIADAU:

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2021-22  
Atodiad 2 – Fersiwn Cryno

## **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:**

#### **Swyddog Monitro:**

Mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ystod y gwaith mae'r pwyllgorau yn ei gyflawni a hefyd yn cadw trosolwg o waith y Cabinet. Rwy'n fodlon fod yr hyn a gyflwynir yn dangos fod y rôl yma yn cael ei chyfarch yn briodol.

#### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod yr adroddiad yma yn adlewyrchiad teg o'r gwaith craffu eang a manwl a gyflawnwyd yn ystod 2021/22. O safbwynt materion cyllid, gallaf gadarnhau fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi rhoi sylw i graffu materion ariannol yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r gweithdrefnau sefydlu cyllideb a monitro gwariant. Nid yw'r adroddiad yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol.